Beth yw prawf Swyddogaeth yr Arennau (GFR)?

Mae'r prawf GFR yn defnyddio lefelau isel iawn o ymbelydredd (^{99m}Tc-DTPA) er mwyn asesu swyddogaeth eich arennau.

Beth sy'n digwydd pan fydda i'n dod i fy apwyntiad?

Cam 1: Yn fuan ar ôl i chi gyrraedd yr adran, rhoddir pigiad bach o olinydd ymbelydrol yn eich gwythïen, fel arfer yn eich braich.

Cam 2: Bydd yn rhaid i chi ddod yn ôl 2 awr ar ôl y pigiad am brawf gwaed yn eich braich arall. Bydd technolegydd clinigol yn dweud yr union amser wrthych chi.

Cam 3: Bydd yn rhaid i chi ddod yn ôl ar ôl 2 awr arall am y prawf gwaed olaf. Bydd technolegydd clinigol yn dweud yr union amser wrthych chi.

Ni allwn gymryd samplau gwaed ar gyfer unrhyw brofion eraill.

Nid yw'n orfodol i chi aros yn yr adran am y 4 awr gyfan, ond **dylech chi ymdrechu i fynychu ar yr amseroedd a roddir i chi**.

*****PWYSIG*****

1. Os rhagnodir **diwretig** i chi (**sef tabled dŵr**); ceisiwch beidio â chymryd hwn ar fore'r prawf. Gallwch barhau ag unrhyw feddyginiaeth arall.
2. Bwytewch **frecwast ysgafn** ar ddiwrnod eich apwyntiad.
3. **Peidiwch** â bwyta cinio mawr am weddill y prawf, ond cewch fwyta byrbryd os ydych chi'n teimlo'n llwglyd.
4. **Yfwch ddiodydd yn rheolaidd** yn ystod y prawf.
5. Os ydych chi'n feichiog, neu'n bwydo ar y fron, cysylltwch â'r adran.

Beth sy'n digwydd ar ôl y prawf?

Cewch fynd adref a pharhau â'ch gweithgareddau arferol. Ni fyddwch chi'n peri risg i bobl eraill, gan gynnwys eich teulu agos.
Bydd canlyniadau'r prawf yn cael eu hanfon at eich meddyg, ac efallai byddan nhw'n cael eu hegluro i chi yn eich apwyntiad ysbyty nesaf.

Manteision, Risgiau a Sgil-effeithiau

Mantais o gael y prawf hwn yw asesu swyddogaeth eich arennau cyn/yn ystod neu ar ôl eich triniaeth.

Mae gweithdrefnau Meddygaeth Niwclear ymhlith y profion diagnostig mwyaf diogel. Bydd y swm o ymbelydredd rydych yn ei dderbyn yn ystod prawf GFR yn cael ei gymeradwyo gan arbenigwr. Mae'r swm nodweddiadol o ymbelydredd o'r holl brawf oddeutu'r un maint ag y byddech yn ei dderbyn yn naturiol dros gyfnod o un mis, felly mae'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ef yn isel iawn.
Bydd y pigiad a'r samplau gwaed yn teimlo'n debyg iawn i brawf gwaed arferol. Mae sgil-effeithiau sy'n gysylltiedig â'r olinydd ymbelydrol yn brin iawn.

Nid yw'r prawf yn anghyfforddus, heblaw am grafiad y nodwydd. Bydd y pigiad a'r samplau gwaed yn teimlo'n debyg iawn i brawf gwaed arferol.

Ysbyty Singleton

CYNLLUN SAFLE



Cyfarwyddiadau o draffordd yr M4

O unrhyw gyffordd rhwng 42 a 47, dilynwch arwyddion Canolfan Dinas Abertawe i ddechrau, ac yna dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer y Gŵyr a'r Mwmbwls. Bydd arwyddion Ysbyty Singleton yn amlwg ger ffiniau'r ddinas. Mae Heol Sgeti ar yr A4216.



06/07

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board

YSBYTY SINGLETON

MEDDYGAETH NIWCLEAR

Eich Apwyntiad ar gyfer eich Prawf Swyddogaeth Arennau (GFR)

Darllenwch y daflen hon yn ofalus ac ewch i'r Adran Meddygaeth Niwclear ar gyfer yr apwyntiad isod

Enw

Rhif Ysbyty

Manylion yr Apwyntiad

Dyddiad

Amser